



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales



Partneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa
Yr Athrofa Professional Learning Partnership

Trawsnewid Addysg Gyda'n Gilydd Transforming Teaching Together

Profiadau Dewisol

Dogfen Steer
Llawlyfr Myfyrwyr

BA3

18.01.2027 - 22.01.2027



Tîm y Modiwl

Croeso i'r ddogfen STEER Dewisol ar gyfer BA Blwyddyn 3. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, sylwadau neu bryderon, yna peidiwch ag oedi rhag cysylltu:

Elaine Sharpling elaine.sharpling@uwtsd.ac.uk

Sioned Hughes s.v.hughes@uwtsd.ac.uk

Roberta Tucker r.tucker@uwtsd.ac.uk

Beth ydy'r Profiad Dewisol?

Mae'r Profiad Dewisol yn cysylltu theori ag arfer ar gyfer y modiwl *Ymchwilio i'r Dysgu*. Mae'n cymryd lle mewn lleoliad ysgol ac yn darparu cyfle i chi gynnal astudiaeth achos ar raddfa fechan er mwyn dyfnhau eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o agwedd sy'n gysylltiedig gyda'ch diddordeb proffesiynol.

Beth fyddwch yn ei wneud?

Yn ystod y pum-diwrnod o brofiad dewisol, byddwch yn casglu data i ateb cwestiwn ymchwil y byddwch chi wedi penderfynu arno yn ystod sesiynau addysgu'r modiwl. Byddwch yn defnyddio o leiaf dau o'r offer canlynol i gasglu eich data:

- Arsylwadau
- Cyfweiliadau grŵp gyda dysgwyr
- Cyfweiliadau unigol gyda staff
- Holiaduron

Cyflwyniad

Ar y diwrnod olaf o'r Profiad Dewisol, byddwch chi yn rhannu eich ymchwil, yn cynnwys y canfyddiadau ac unrhyw argymhellion. Dylid edrych ar hyn fel cyfle proffesiynol ar gyfer rhannu, gyda'r gynulleidfa yn gallu cynnwys unrhyw rhanddeiliaid addas, yn cynnwys dysgwyr, o gymuned yr ysgol.

Dylai'r cyflwyniad barhau hyd at 15 munud yn cynnwys amser ar gyfer cwestiynau a thrafodaeth.

Ymddwyn yn foesegol

Rydym yn ystyried yr agwedd hon o'r modiwl a'r profiad dewisol yn bwysig tu hwnt.

Bydd disgwyl i chi ymddwyn yn broffesiynol ac yn foesegol wrth gynnal eich ymchwil. Byddwch wedi derbyn cymeradwyaeth foesegol o flaenllaw ar gyfer eich hastudiaeth ac fe ddylech gydymffurfio gyda gofynion yr ysgol parthed caniatâd.

Disgwylir proffesiynoldeb, fel yr amlinellir yng Nghod Ymddygiad CGA a BERA (2024), gennych ac maent ar gael yma:

<https://www.ewc.wales/site/index.php/cy/priodoldeb-i-ymarfer/cod-ymddygiad-ac-ymarfer-proffesiynol-cga>

[Ethical Guidelines for Educational Research, fifth edition \(2024\) | BERA](#)

Pa themâu sy'n gallu eu cynnig ar gyfer y Profiad Dewisol?

Gall ysgolion gynnig nifer o gyfleoedd ar gyfer y Profiad Dewisol a dylai'r ffocws fod ar ddatblygu eich addysgeg bersonol a'ch arfer proffesiynol. Mae angen iddo fod yn rhywbeth y gallwch chi ei ddefnyddio i ddylanwadu ar eich haddysgu eich hunain.

Gall y cynnig hefyd gynnwys arfer sy'n dod i'r amlwg os yw ysgolion yn treialu dull newydd. Bydd angen i chi ddewis eich cynnig cyntaf a'ch ail gynnig. Bydd yr ysgolion wedyn yn cydweithio ac yn ymateb i'ch cynigion.

Dewislen awgrymedig

Mae'r ddewislen ganlynol yn cynnwys rhai syniadau ar gyfer y Profiadau Dewisol a allai eich helpu i benderfynu. Nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr nac yn rhagnodol:

- Perthnasoedd dysgwr-athro – er enghraifft, sefydlu amgylchedd dysgu cadarnhaol
- Rheoli ystafell ddosbarth
 - Atal (Prevention)
 - Adferol (Restorative)
- Sgiliau Trawsgwricwlaidd
- Defnydd o dechnoleg – yn benodol Deallusrwydd Artiffisial (AI)
- Dulliau cwestiynu
- Modelu effeithiol
- Dysgwyr amlieithog
- Llesiant plant – arfer wedi'i lywio gan drawma, e.e. dysgu proffesiynol ar gyfer staff
- Dysgu darllen – ffoneg, arwain a rhannu
- Llythrennedd – llafar, darllen, ysgrifennu
- Rhifedd a'r hyfedreddau (proficiencies)
- Gwahaniaethu ac arfer cynhwysol
- Metawybyddiaeth
- Effeithiolrwydd dysgwyr – deall dilyniant
- Blynnyddoedd cynnar:
 - Dysgu yn seiliedig ar chwarae
 - Cwricwlwm nas-gynhelir (non-maintained curriculum)
 - Galluogi dysgu (Enabling learning)
 - 'Schemas'

Beth sydd ddim yn cael ei gynnig

Unrhyw beth lle byddai'n anodd i chi gasglu data – e.e. ADY penodol iawn, grwpiau maethu neu lle mae anghenion y dysgwr yn gymhleth. Byddem hefyd yn awgrymu nad yw casglu gwybodaeth gan rieni/warcheidwaid yn bosibl o ystyried yr amserlen fer.

Beth sydd angen i mi ei wneud?

Bydd y profiad dewisol yn digwydd o fewn pob rhwydwaith a bydd Arweinwyr Rhwydwaith yn paru eich diddordebau â lleoliadau sydd ar gael. Bydd pob profiad yn amrywio ychydig yn dibynnu ar y lleoliad; fodd


bynag, y disgwyliad yw y byddwch yn treulio pum niwrnod yn yr ysgol a bod aelod o staff (fel arfer yr Arweinydd Rhwydwaith neu'r Uwch Fentor) yn cydlynu'r profiad (Cydlynnydd Profiad Dewisol).

Bydd lle yn cael ei neilltuo yn yr ysgol i chi weithio ac hefyd cyfle i gasglu eich data – bydd amser yn cael ei roi i chi i weithio ar eich data ac i baratoi eich cyflwyniad.

A ydw i yn gallu gweithio o gartref neu oddi ar y safle?

Na

Dyddiadau allweddol ar gyfer 2026/7



Sut gellir trefnu'r wythnos– strwythur awgrymedig

Dyddiad	Gweithgaredd awgrymedig
Diwrnod 1 Croeso	- Dod i adnabod yr ysgol, e.e. disgwyliadau ynghylch cyrraedd, ystafell gyfarfod/gwaith, gwybodaeth am yr ysgol, taith ddysgu o amgylch yr ysgol. - Ymsefydlu yn yr ysgol gan gynnwys diogelu a rhannu unrhyw bolisiau/ gweledigaeth/arfer sy'n gysylltiedig â maes diddordeb y myfyrwyr. - Amser yn cael ei ddarparu i'r myfyrwyr drefnu eu hamserlen ymchwil. Dylai hyn gynnwys cyfleoedd i gael caniatâd, cynlluniau i gasglu data (arsylwadau, cyfweliadau) ynghyd ag amser ar gyfer gwaith annibynnol.
Diwrnod 2 Casglu data	Myfyrwyr yn dechrau dilyn eu llinellau ymholi ac yn casglu tystiolaeth ar ffocws eu hymchwil. Dulliau i gynnwys arsylwi, cyfweliadau a holiaduron.
Diwrnod 3	

Casglu data	• Myfyrwyr yn parhau i ddilyn eu llinellau ymholi. Dylent allu cwblhau y broses o gasglu data heddiw.
Diwrnod 4 Adfyfrio a pharatoi	• Amser ar gyfer myfyrion a pharatoi – dylai'r myfyrwyr ddefnyddio heddiw i adolygu ac egluro agweddau heb eu hateb ar eu hymchwil. • Mae angen amser ar y myfyrwyr heddiw i baratoi eu cyflwyniadau ar gyfer yfory.
Diwrnod 5 Cyflwyniad	• Cyfle i'r darpar-athrawon gyflwyno eu canfyddiadau i gyfoedion a chydweithwyr yn yr ysgol/prifysgol. • Strwythur awgrymedig: ○ Rhesymwaith dros ddewis y cynnig Profiad Dewisol ○ Adolygiad o'r llenyddiaeth allweddol ○ Ystyriaethau moesegol ○ Casglu data a'r dadansoddiad ○ Canfyddiadau (findings) ○ Awgrymiadau ○ Cyfeiriadau (References) ○

Beth i'w wneud – ar yr olwg gyntaf

Fel myfyriwr-athro, byddaf yn ...	Fel cydlynnydd profiad dewisol, byddaf yn ...
cysylltu â'r ysgol i gyflwyno fy hun a rhannu fy ymchwil 'un dudalen'	croesawu'r myfyrwyr a sicrhau eu bod yn gyfarwydd â pholisïau priodol yr ysgol
ymgysylltu'n llawn â'r profiad dewisol mewn ffordd broffesiynol	sicrhau bod gan y myfyrwyr le i weithio a'u bod yn cael eu cefnogi drwy gydol y profiad gan aelodau allweddol o staff
cynnal astudiaeth achos wedi ei gysylltu gyda fy mhwnc/agwedd dewisol	darparu amrywiaeth o gyfleoedd i'r myfyrwyr gasglu gwybodaeth e.e. apwyntiadau gydag athrawon
rhannu fy ymchwil gyda chynulleidfya sydd wedi cael gwahoddiad mewn modd proffesiynol	gwahodd cydweithwyr i'r cyflwyniadau gan y myfyrwyr ar Ddiwrnod 5
ymddwyn yn foesebol yn unol â chanllawiau moeseg BERA (2024).	ymgysylltu mewn deialog fyfyrion gyda'r myfyrwyr a chroesawu arsylwadau a sylwadau.

Fel Arweinydd Rhwydwaith, byddaf yn ...
Cytuno ar ddewislen o gyfleoedd Profiad Dewisol gydag ysgolion Partner
Cysylltu â thîm y modiwl i gadarnhau'r cynigion Profiad Dewisol ar gyfer y Rhwydwaith
Cwblhau a rhannu trefniadau ar gyfer y profiadau dewisol gyda'r myfyrwyr
Dyrannu cyllid priodol ar gyfer y gweithgareddau y cytunwyd arnynt
Agenda'r gwerthusiad o'r Profiadau Dewisol ar gyfer Cyfarfod Rhwydwaith yr Hydref
Cwblhau y broses sicrhau ansawdd fel y manylir yn y ddogfen hon.

Camau Sicrhau Ansawdd

Ar gyfer y Profiad Dewisol, mae ein camau sicrhau ansawdd yn cynnwys casglu data uniongyrchol ac eilaidd fel a ganlyn:

